


Pedwar ymgais a gafwyd yn y gystadleuaeth hon eleni. Dwy gân heb eiriau ar gyfer y piano a gyfansoddodd 'Pupur'. Yn y gân Golau Dydd, mae'r rhythmau a'r newidiadau amsernodau yn ddiddorol ac yn cael eu defnyddio yn rhwydd ac yn addas. Rwyf yn benodol yn hoff o'r defnydd o 3/4 er mwyn symud y gerddoriaeth ymlaen, ac mae'r newid i 7/8 yn ddiddorol dros ben. Mae'r harmonïau hefyd yn wreiddiol, a datblygiad amlwg o'r prif motif i'w weld drwy'r gwaith. Un awgrym: ar ôl adeiladu'r gerddoriaeth yn yr adran 7/8, dwi'n teimlo nad oes angen y saib, a byddai'n well symud ymlaen yn syth. Yn Pe bai'r byd yn dod i ben, mae strwythr a siap addas i'r darn, a'r manylion dehongli yn eu lle, ond nid yw mor ddiddorol o ran harmoni, gan ddibynnu gormod ar ddilyniant cordiau o arddull mwy poblogaidd. Teimplaf nad yw'r newid cywair yn gweithio cystal â'r gân arall. Wedi dweud hynny, mae'n gwella wrth fynd ymlaen. Mae angen tacluso'r sgôr yn y ddwy gân, e.e. byddai'n well i'r llaw chwith gael ei ysgrifennu yng nghleff y trebl. Darn cerddorfaol mewn pedwar rhan, wedi ei ysbrydoli gan chwedl Branwen yw Difa Da Dwy Ynys gan 'Sul y Pys'. Mae'r cyfansoddwr hwn yn gwybod sut i greu naws a chreu llun ym meddwl y gwrandawr o'r hyn sy'n digwydd yn y stori ac yn defnyddio offerynniaeth addas. Er enghraifft, clywn gymeriad blin a bygythiol yn y symudiad a enwir yn Matholwch, a chymeriad mwy hiraethus yn y symudiad o'r enw Branwen. Mae'n dda gweld gwadau amrywiol o fewn y symudiadau hefyd, e.e. cychwyn thema gydag ensemble bychan cyn adeiladu i ddefnyddio'r gerddorfa gyfan. Yn anffodus, mae tueddiad i ddefnyddio yr un dilyniant cordiau drwy'r gwaith, a gor-ddibyniaeth ar draws gyweirio fel dull o ddatblygu'r deunydd cerddorol. Mae rhannau mwy gwreiddiol hefyd, ond gellid datblygu ac arbrofi gyda'r rhain yn fwy. Mae angen tacluso'r sgôr dipyn hefyd, gyda man-wallau i'w gweld. Mae angen bod yn fwy clir sawl offeryn sy'n chwarae pob rhan, a pha bryd mae nhw'n chwarae gyda'i gilydd, yn unawdol neu yn rhannu. Mae rai cordiau amhosib i'w chwarae yn y llinynnau felly rhaid nodi bod angen rhannu'r cord rhwng yr adran. Bydd yn ofalus gyda'r ffliwtiau; mae angen lle iddynt anadlu os oes patrwm sy'n parhau yn hir. Bydd yn ofalus hefyd gyda'r timpani. Mae angen newid traw y drymiau dipyn o weithiau yn weddol gyflym o fewn y symudiadau. Mae'n anodd iawn gweld llawer o'i le yn y ddau gyfansoddiad nesaf. Cyfansoddodd 'Endurance' bedwarawd llinynnol gyda'r teitl Rhapsody in G minor. Mae'r cyfansoddwr yn plethu'r deunydd cerddorol yn feistrolgar drwy'r darn, gyda'r offerynnau i gyd yn cydweithio â'i gilydd. Mae'r motifau alawol a rhythmig yn cael eu datblygu a'u pasio o un offeryn i'r llall mewn ffordd ddiddorol ac amrywiol.



Mae gallu'r cyfansoddwr i symud drwy gyweiriau, harmonïau ac amsernodau gwahanol gyda rhwyddineb yn amlwg. Mae yma hefyd ddigon o amrywiaeth yn y gwead gan arbrofi â'r defnydd o'r offerynnau. Mae'r sgôr yn daclus, gyda manylion dehongli perthnasol yn eu lle. Petawn i'n gorfod bod yn feirnodol, byddwn yn dweud bod angen mwy o amser i newid rhwng pizzicato ac arco. Cyfansoddodd 'Hances Boced' ddarn ar gyfer ensemble offerynnol gyda'r teitl Amrywiaethau. Mae hwn yn gyfansoddwr aeddfed sy'n gwybod sut i ddefnyddio'r offerynnau yn addas a gyda chynildeb. Mae'r gerddoriaeth yn gyfoes ei arddull, ond mae'r cyfansoddwr yn llwyddo i greu harmonïau hynod ddiddorol. Mae'r motifau cerddorol yn symud yn rhwydd o un offeryn i'r llall, a thrwy ddefnyddio amrywiol rythmau, gweadau a deinameg, mae lliwiau diddorol a gwreiddiol yn cael eu creu. Mae cydweithio da rhwng yr offerynnau, a phob manylyn yn ei le yn addas. Teimlaf fod y gerddoriaeth ychydig yn anghysylltiol ar adegau, ond mae'n gwella wrth fynd ymlaen. Dwi wedi fy nghalonogi gyda safon y gystadleuaeth eleni. Yn drydydd felly, mae Pupur, yn ail mae Hances Boced, gydag Endurance yn cipio'r wobwr gyntaf. Llongyfarchiadau mawr i bawb.

